GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mewnwelediadau Iechyd Rhyngwladol Dulliau o Fesur a Chynyddu Gwariant a Buddsoddiad mewn Atal

Dysgu o brofiadau ledled y byd i adeiladu Cymru iachach a thecach

Hydref 2026

1. Pam mae hyn yn bwysig

Mae atal yn parhau i gael ei hariannu'n annigonol er gwaethaf darparu buddion sylweddol i iechyd, cymdeithas a'r economi.

3.4%
o wariant iechyd sy'n cael ei neilltuo i atal
(gwledydd OECD)

Mae heriau cynyddol yn gwneud atal yn fwy brys:

- Poblogaethau sy'n heneiddio
- Cynnydd mewn cyflyrau iechyd hirdymor
- Anghydraddoldebau iechyd cynyddol
- Effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
- Pwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a chyhoeddus

2. Nod yr adolygiad hwn

Nodi dulliau rhyngwladol o:

- Fesur gwariant ar atal
- Diogelu cyllidebau atal
- Cynyddu buddsoddiad mewn atal
- Llywio polisi ac ymarfer yn y dyfodol yng Nghymru

3. Canfyddiadau allweddol

Mesur gwariant ar atal

- Nid oes diffiniad o atal y cytunwyd arno'n gyffredinol.
- Y System Cyfrifon Iechyd (SHA) 2011 yw'r prif fframwaith, ond caiff ei chymhwyso'n anghyson rhwng gwledydd.
- Mae buddsoddiad y tu allan i ofal iechyd (e.e. addysg, tai, trafnidiaeth a diogelu cymdeithasol) yn aml yn cael ei eithrio.
- Mae'r dulliau presennol yn debygol o danamcangyfrif gwir lefel y buddsoddiad mewn atal.

Pam mae atal yn parhau i gael ei hariannu'n annigonol

- Mae cylchoedd gwleidyddol a chyllidebol byr yn gyrru meddwl tymor byr.
- Mae atal yn agored i niwed yn ystod cyni cyllidol a thoriadau gwariant.
- Yn aml, dim ond dros gyfnodau hwy na chylchoedd gwleidyddol y gwelir manteision atal.
- Mae cefnogaeth ar draws sectorau a chydnabyddiaeth o'r enillion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn gyfyngedig.

Mecanweithiau sy'n cefnogi buddsoddiad mewn atal

- **Trethiant wedi'i glustnodi**
  Neilltuo refeniw treth penodol at ddiben penodol.
- **Cyllidebau wedi'u neilltuo**
  Llinellau cyllideb pwrpasol neu warchodedig ar gyfer atal.
- **Cyllido sy'n seiliedig ar ganlyniadau a buddsoddiad effaith**
  Modelau talu am lwyddiant a bondiau effaith gymdeithasol.
- **Dyraniadau gorfodol uwch-genedlaethol**
  Pennu lefelau gwariant lleiaf ar lefel rhoddwr neu mewn deddfwriaeth.

4. Mewnwelediadau o wledydd rhyngwladol

Y Ffindir

- Dros 30 mlynedd o gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer hybu iechyd drwy refeniw pwrpasol a chynllunio hirdymor.
- Yn defnyddio dangosyddion eang i fonitro buddsoddiad mewn atal.

Yr Almaen

- Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd yswiriant salwch ymrwymo lefelau isafswm o wariant ar atal, gan helpu i ddiogelu lefelau buddsoddi.
- Mae atal wedi'i ymgorffori mewn system yswiriant iechyd statudol.

Estonia

- Arweiniodd eiriolaeth draws-sector at newidiadau deddfwriaethol gan ehangu cyllid ar gyfer atal drwy'r Gronfa Yswiriant Iechyd.
- Helpodd dull cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth i ysgogi newid.

De Korea

- Mae trethiant tybaco trefol yn darparu ffynhonnell gyllido sefydlog wedi'i glustnodi ar gyfer gweithgareddau hybu iechyd.
- Yn dangos sut y gall treth benodol gynhyrchu buddsoddiad cynaliadwy mewn atal.

5. Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru

- Sefydlu fframwaith cenedlaethol cyson ar gyfer gwariant ar atal.
- Nodi buddsoddiad mewn atal ar draws sectorau'r llywodraeth.
- Diogelu cyllid atal drwy fecanweithiau cyllideb pwrpasol.
- Mabwysiadu dulliau ehangach o asesu gwerth a'r enillion ar fuddsoddiad
- Archwilio modelau cyllido a phartneriaethau arloesol.
- Blaenoriaethu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n darparu effaith a gwerth am arian profedig.

Neges allweddol

Mae buddsoddi mewn atal yn gwella iechyd, yn lleihau anghydraddoldebau, yn cryfhau cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus ac yn sicrhau buddion economaidd a chymdeithasol ehangach. **Mae buddsoddiad hirdymor, gwarchodedig yn hanfodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn.**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Policy and International Health

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Policy and International Health
World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

https://icccgsib.co.uk/